Datganiad i'r Wasg

*******EMBARGO: 00:01 DYDD MAWRTH 24 EBRILL*******

Bagloriaeth Cymru yn cynnig profiad dysgu gwerthfawr – adroddiad

Yn ôl adroddiad ymchwil a gyhoeddwyd heddiw, mae'r cymhwyster sydd wrth wraidd Bagloriaeth Cymru yn cynnig profiad dysgu gwerthfawr ac yn addysgu sgiliau i fyfyrwyr sy'n angenrheidiol ar gyfer eu dyfodol.

Cafodd yr adroddiad ei lunio i Cymwysterau Cymru gan Wavehill Social and Economic Research mewn partneriaeth â Sefydliad Addysg Coleg Prifysgol Llundain. Gwnaeth yr ymchwil ystyried cynllun y Dystysgrif Her Sgiliau a cheisio safbwyntiau athrawon, darlithwyr a myfyrwyr er mwyn gweld sut mae'n gweithio'n ymarferol.

"Dangosodd yr adroddiad hwn fod y Dystysgrif Her Sgiliau yn gymhwyster gwerthfawr sy'n helpu dysgwyr i ddatblygu sgiliau hanfodol. Y sgiliau sydd eu hangen ar bobl ifanc i lwyddo yn y gweithle, ym marn cyflogwyr.

"Mae'n gadarnhaol bod llawer o athrawon yn dweud bod addysgu'r Dystysgrif Her Sgiliau yn rhoi boddhad, a bod myfyrwyr hefyd yn dweud eu bod yn mwynhau dysgu sgiliau newydd a chael y cyfle i ganolbwyntio ar yr hyn sydd o ddiddordeb iddynt," meddai Philip Blaker, Prif Weithredwr Cymwysterau Cymru.

Er ei fod yn nodi pwysigrwydd a gwerth y Dystysgrif Her Sgiliau i bobl ifanc yng Nghymru, mae'r adroddiad yn dangos:

- bod rhai agweddau ar ei chynllun a'i dulliau asesu yn fwy cymhleth nag sydd ei angen;
- bod cynnwys a dulliau asesu gwahanol elfennau'r Dystysgrif Her Sgiliau yn cael eu dyblygu rywfaint;
- bod lefel anghyson o ddealltwriaeth ohoni a'i chysylltiad â Bagloriaeth Cymru ymhlith myfyrwyr ac athrawon;

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

www.qualificationswales.org

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

- bod athrawon a myfyrwyr yn ei chael hi'n anodd disgrifio'r Dystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru i eraill.

"Bydd unrhyw adolygiad beirniadol o'r fath bob amser yn dod o hyd i feysydd i'w gwella, yn enwedig wrth ystyried cymhwyster mor arloesol a newydd â'r Dystysgrif Her Sgiliau," meddai Mr Blaker.

Mae'r adroddiad yn gwneud wyth argymhelliad i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd. Mae rhai o'r argymhellion yn canolbwyntio ar y ffordd y mae'r Dystysgrif Her Sgiliau yn cael ei chyflwyno ar hyn o bryd, er enghraifft drwy wneud mwy i esbonio beth ydyw, sut mae'n cyd-fynd â Bagloriaeth Cymru a'i manteision. Mae argymhellion eraill yn awgrymu sut y gellid symleiddio cynllun a dulliau asesu'r Dystysgrif Her Sgiliau yn y dyfodol.

Wrth ystyried unrhyw newidiadau yn y dyfodol, mae'r adroddiad yn rhybuddio yn erbyn gwneud unrhyw newidiadau'n gyflym ac yn dadlau o blaid cynnwys eraill yn y broses er mwyn ystyried a ddylid cyflwyno unrhyw newidiadau arfaethedig a phryd y dylid gwneud hynny.

Meddai Mr Blaker, wrth ymateb i'r argymhellion: "Mae Cymwysterau Cymru yn cefnogi canfyddiadau'r ymchwil. Rydym yn sefydlu gweithgor i ystyried ffyrdd o weithredu ar yr argymhellion. Byddwn hefyd yn dod â phanel o athrawon, dysgwyr, cyflogwyr a phrifysgolion ynghyd i brofi a mireinio unrhyw gynigion ar gyfer newidiadau. Byddwn yn rhoi gwybod am ein cynnydd erbyn diwedd y flwyddyn."

"Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau yn ffordd newydd ac arloesol o ddatblygu ac asesu sgiliau bywyd pwysig. Roeddem bob amser yn disgwyl y byddai angen ei mireinio ymhellach ar ôl cyfnod sefydlu. Mae canfyddiadau'r adolygiad hwn yn sail gref i esblygu'r cymhwyster yn raddol fel y gall barhau i fynd o nerth i nerth," meddai Mr Blaker.

Mae'r adroddiad llawn ar gael ar wefan Cymwysterau Cymru.